**Memorandwm Esboniadol i Reoliadau Gwastraff Pecynwaith (Casglu ac Adrodd am Ddata) (Cymru) (Diwygio) 2024**

Paratowyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan yr Adran Newid Hinsawdd ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

**Datganiad y Gweinidog**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Gwastraff Pecynwaith (Casglu ac Adrodd am Ddata) (Cymru) (Diwygio) 2024. Rydw i'n fodlon bod y buddion yn cyfiawnhau'r costau tebygol.

Julie James AS
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
20 Chwefror 2024

**RHAN 1**

**Pennod 1 - Disgrifiad**

1. Mae Rheoliadau Gwastraff Pecynwaith (Casglu ac Adrodd am Ddata) (Cymru) (Diwygio) 2024 (“y Rheoliadau hyn”) yn diwygio Rheoliadau Gwastraff Pecynwaith (Casglu ac Adrodd am Ddata) (Cymru) 2023 (“y Prif Reoliadau”). Mae’r Prif Reoliadau (a ddaeth i rym ar 17 Gorffennaf 2023) yn cefnogi'r broses o weithredu'r cynllun Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr (EPR) ar gyfer Pecynwaith. Bydd y cynllun EPR yn ei gwneud yn ofynnol i gynhyrchwyr gymryd cyfrifoldeb am effaith amgylcheddol y pecynwaith y maent yn ei roi ar y farchnad drwy eu gorfodi i dalu am gostau casglu a gwaredu'r pecynwaith hwn pan fydd yn dod yn wastraff. Bydd hyn yn cynnig cymhelliant ariannol i gynhyrchwyr leihau faint o becynwaith y maent yn ei roi ar y farchnad ac i wella'r graddau y gellir ailgylchu pecynwaith.

2. Mae'r Prif Reoliadau yn ei gwneud yn ofynnol i gynhyrchwyr pecynwaith gasglu data ac, mewn rhai achosion, adrodd am ddata, ar faint o becynwaith a’r math o becynwaith y maent yn ei roi ar y farchnad. Mae angen y data hyn er mwyn cyfrifo'r ffioedd y bydd angen i gynhyrchwyr eu talu o dan y cynllun EPR ar gyfer pecynwaith. Y bwriad yw i’r Prif Reoliadau fod ar waith am gyfnod byr, wedyn bwriedir iddynt gael eu dirymu a'u disodli gan y rheoliadau i sefydlu'r cynllun EPR (“Rheoliadau EPR”), a fydd yn cynnwys y darpariaethau cyfatebol ar gyfer casglu ac adrodd am ddata.

3. Mae angen y Rheoliadau hyn i sicrhau yr adroddir am ddeunyddiau pecynnu na fyddai rhwymedigaethau cynhyrchwyr wedi bod yn gysylltiedig â nhw fel arall, nes i Gynllun Dychwelyd Ernes “DRS” gael ei roi ar waith yn yr Alban. Mae’r diwygiadau hefyd yn sicrhau bod cynhyrchwyr pecynwaith yn adrodd am yr holl becynwaith y maent yn ei roi ar y farchnad, yn gwella eglurder rhai o’r rhwymedigaethau ac egluro darpariaethau mewn ymateb i adborth gan randdeiliaid, gan gynnwys diwygiad i’r diffiniad o becynwaith cartref.

**Pennod 2 - Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

4. Dim.

**Pennod 3 - Cefndir deddfwriaethol**

5. Gwneir y Rheoliadau hyn yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol wrth arfer y pwerau a roddir gan adran 2(1) i (3) o Ddeddf Atal a Rheoli Llygredd 1999 a pharagraffau 2, 11, 17 ac 20(1)(b) o Atodlen 1 iddi.

6. Trosglwyddwyd swyddogaethau perthnasol yr Ysgrifennydd Gwladol yn Neddf Atal a Rheoli Llygredd 1999 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau)

2005 ac yna i Weinidogion Cymru yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

7. Mae hwn yn gynllun cyfunol ledled y DU, ond mae'r pwerau a roddir gan Ddeddf Atal a Rheoli Llygredd 1999 bellach wedi'u datganoli. Mae deddfwriaeth ar gyfer casglu ac adrodd am ddata sy'n debyg i'r Prif Reoliadau wedi cael ei gwneud mewn perthynas â Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon, ac mae gweinyddiaethau eraill ledled y DU hefyd yn gwneud is-ddeddfwriaeth gyfatebol i'r Rheoliadau Diwygio.

**Pennod 4 – Diben ac effaith arfaethedig y ddeddfwriaeth**

8. Y bwriad yw cyflwyno'r prif gynllun EPR yn y DU ar ddiwedd 2024 drwy Reoliadau EPR a wneir yn unol â Deddf yr Amgylchedd 2021 y DU. Bydd y cynllun EPR yn ei gwneud yn ofynnol i gynhyrchwyr gymryd cyfrifoldeb am effaith y pecynwaith y maent yn ei gyflenwi drwy eu gorfodi i dalu am gostau casglu a gwaredu'r pecynwaith hwn pan fydd yn dod yn wastraff. Bydd hyn yn cynnig cymhelliant ariannol i gynhyrchwyr ddefnyddio adnoddau'n fwy effeithlon drwy leihau faint o becynwaith y maent yn ei gyflenwi ac i wella'r graddau y gellir ailgylchu eu pecynwaith. Mae hyn yn ei dro yn cefnogi'r newid i economi fwy cylchol gan leihau allyriadau ac effeithiau eraill ar yr amgylchedd ar yr un pryd.

9. Bydd gofyn i gynhyrchwyr dalu ffi EPR i awdurdodau lleol, drwy Weinyddwr Cynllun, yn seiliedig ar faint o becynwaith a gyflenwir. Diben y Prif Reoliadau yw dechrau casglu'r data sydd ei angen cyn y cynllun, a fydd yn cael ei sefydlu gan y Rheoliadau EPR.

10. Ers i'r Prif Reoliadau gael eu cyflwyno, mae gwaith gyda busnesau a chanddynt rwymedigaeth wedi nodi meysydd lle mae angen diwygiadau i sicrhau bod y gwaith o roi'r Prif Reoliadau ar waith yn cyd-fynd yn well â'r bwriad polisi gwreiddiol. Bydd y rheoliadau hyn yn diwygio'r Prif Reoliadau er mwyn iddynt adlewyrchu'r bwriad polisi'n well, ac nid ydynt yn cynrychioli polisi newydd. Mae'r rhestr a ganlyn yn grynodeb o'r newidiadau allweddol y mae'r Rheoliadau hyn yn ymdrin â nhw:

    a. diwygio'r Prif Reoliadau i'w gwneud yn ofynnol i CNC lunio rhestr o gynhyrchwyr mawr sydd wedi cyflwyno data o dan y Rheoliadau hyn. Roedd hyn i fod i gael ei gyflwyno gan Reoliadau EPR, sydd bellach wedi cael eu hoedi. Mae angen y rhestr er mwyn i Ddosbarthwyr, Mewnfudwyr a Gweithredwyr Marchnadoedd Ar-lein allu nodi Cynhyrchwyr Mawr.
    b. diwygio'r Prif Reoliadau i sicrhau, pan fydd pecynwaith gwag ac arno frand yn cael ei werthu i gwmni sy'n ei lenwi â'i gynhyrchion ei hun a'i anfon at y cwsmer heb ychwanegu ei frand ei hun at y pecynwaith, mai'r cwmni sy'n llenwi'r pecynwaith sy'n ysgwyddo'r rhwymedigaeth, nid cynhyrchwyr y pecynwaith. Mae hyn yn adlewyrchu'r bwriad polisi gwreiddiol.
    c. diwygio'r Prif Reoliadau i sicrhau bod cynhyrchwr a leolir yn y DU yn ysgwyddo'r rhwymedigaeth pan fydd pecynwaith wedi cael ei

fewnforio gan berchennog brand dramor sy’n parhau i fod yn berchennog ar y pecynwaith, i sicrhau bod rhywun yn gyfrifol am y pecynwaith, am nad yw’r perchennog dramor wedi’i sefydlu yn y DU.

d. diwygio’r Prif Reoliadau i sicrhau, os yw Dosbarthwr yn gwerthu pecynwaith gwag i Gynhyrchwyr Mawr na fydd wedyn yn defnyddio / llenwi’r pecynwaith hwnnw, fod y Dosbarthwr yn ysgwyddo’r rhwymedigaeth. Mae’r drafftio, fel y mae, yn golygu nad oes neb yn gyfrifol pan fydd dosbarthwr yn cyflenwi pecynwaith (wedi’i fewnforio neu wedi’i gynhyrchu ganddo) i gynhyrchwyr mawr, sydd wedyn yn mynd yn ei flaen i’w gyflenwi yn wag i gynhyrchwyr bach/nad oes ganddo rwymedigaeth.
e. diwygio’r Prif Reoliadau i estyn cwmpas yr hyn y mae rhaid i werthwyr adrodd amdano, i gynnwys pecynwaith a werthir rhwng busnesau. Fel y mae’r drafftio ar hyn o bryd, nid oes gan Werthwyr rwymedigaeth ond mewn perthynas â phecynwaith maent yn ei werthu i ddefnyddwyr nad ydynt yn fusnesau. Nid oedd hwn yn fwriadol ac nid yw’n cyd-fynd â’r bwriad polisi i Werthwyr adrodd am becynwaith a werthir rhwng dau fusnes (busnes i fusnes) ac o fusnes i rywun nad yw’n fusnes / dinesydd (busnes i ddinesydd).
f. diwygio’r Prif Reoliadau i gynnwys prawf i ganiatáu i gynhyrchwyr asesu a fwriedir i’r pecynwaith gael ei ddefnyddio at “ddibenion busnes” yn unig neu at “ddibenion deuol”. Rydym wedi bod yn derbyn beirniadaeth gynyddol bod rhai deunyddiau pecynnu y mae’n annhebyg iawn y byddant yn cael eu rhoi mewn biniau cartrefi yn cael eu dosbarthu yn becynwaith cartref pan fydd yn cael eu cyflenwi drwy drydydd partïon (e.e. casgenni cwrw mawr a drymiau cemegion diwydiannol, gweinyddion cyfrifiaduron mawr ac ati.
g. diwygio’r Prif Reoliadau i gynnwys rhestr o sefydliadau cyhoeddus ochr yn ochr â “busnesau”, fel ysgol neu ysbyty. Ar hyn o bryd, nid oes modd esemptio pecynwaith sy’n cael ei gyflenwi i’r mathau eraill hyn o sefydliadau rhag cael ei ddosbarthu yn becynwaith cartref, fel y gellir ei wneud pan fydd yn cael ei werthu i fusnesau a fydd y defnyddiwr terfynol..
h. diwygio’r Prif Reoliadau i osgoi Perchnogion Brand a Mewnforwyr yn adrodd am yr un pecynwaith ddwywaith. Gall y drafftio presennol arwain at adrodd ddwywaith, pan fydd mewnforwyr yn mewnforio cynhyrchion i’r DU a hynny heb fod ar gais perchennog y brand.
i. diwygio’r Prif Reoliadau i ganiatáu i gynhyrchwyr esemptio pecynwaith o’r rhwymedigaethau ailgylchu os gallant gyflwyno tystiolaeth yr adroddwyd eisoes am y pecynwaith o dan Reoliadau Rhwymedigaethau Cyfrifoldeb Cynhyrchwyr (Gwastraff Deunydd Pacio) 2007 (“Rheoliadau 2007”).
j. diwygio’r diffiniad o fewnforiwr yn y Prif Reoliadau i gynnwys “unrhyw becynwaith” yn hytrach na “pecynwaith wedi’i lenwi”, i gyd-fynd â’r ddarpariaeth ar gyfer pecynwaith wedi’i fewnforio a phecynwaith wedi’i daflu.
k. diwygio’r Prif Reoliadau i ychwanegu gofyniad i gynlluniau cydymffurfedd fonitro cywirdeb yr wybodaeth a gyflwynir gan eu haelodau, er mwyn cyd-fynd â’r darpariaethau cyfatebol yn Rheoliadau 2007 ac yn y Rheoliadau EPR arfaethedig.

l. diwygio'r Prif Reoliadau i gyflwyno gofyniad am yn un lefel o adrodd a fyddai wedi bod yn ofynnol o dan Gynllun Dychwelyd Ernes yn yr Alban. Mae'r cyhoeddiad bod y Cynllun Dychwelyd Ernes wedi cael ei oedi'n golygu, heb y Rheoliadau hyn, na fyddai angen adrodd am lawer o becynwaith o dan y Cynllun Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr, ond hefyd na fyddai angen adrodd o dan Gynllun Dychwelyd Ernes yr Alban chwaith.

11. Gan fod y cynllun EPR yn gynllun ar gyfer y DU gyfan, mae angen casglu ac adrodd am ddata yn gyson ledled y DU. Os na wneir diwygiadau i'r Prif Reoliadau, bydd gwahaniaethau rhwng y rhwymedigaethau ar gynhyrchwyr (ac eraill) yng Nghymru a gweddill y DU, ac mae'n bosibl y bydd hyn yn ei wneud yn fwy anodd i'r rhai sy'n ddarostyngedig i'r Prif Reoliadau ddeall eu rhwymedigaethau ledled y DU. Gallai hyn olygu bod cynhyrchwr sydd wedi cydymffurfio â'r rhwymedigaethau diwygiedig yn Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban yn cyflawni trosedd yng Nghymru.

**Pennod 5 – Ymgynghori**

12. Cynhaliwyd ymgynghoriad penodol ar gyflwyno'r cynllun EPR yn y DU am 12 wythnos rhwng 18 Chwefror a 13 Mai 2019. Cafodd ymgynghoriad ei gynnal ar y cyd rhwng Llywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru, Llywodraeth yr Alban a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon.

13. Derbyniodd yr ymgynghoriad hwn 679 o ymatebion gan amrywiaeth eang o randdeiliaid. Ar y cyfan roedd yr ymatebion yn gefnogol i'r cynigion, gydag 80% o ymatebwyr yn cytuno â'r egwyddorion a gynigiwyd ar gyfer EPR ar gyfer pecynwaith ac 88% yn cytuno â chanlyniadau arfaethedig y system EPR. Cafodd y crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ei gyhoeddi ym mis Gorffennaf 2019 yn amlinellu'r bwriad i fwrw ymlaen â chyflwyno EPR ar gyfer pecynwaith.

14. Yna cynhaliwyd ail ymgynghoriad ar y cynllun EPR am 10 wythnos rhwng 24 Mawrth 2021 a 4 Mehefin 2021. Nod yr ymgynghoriad hwn oedd casglu barn ar y cynigion polisi manwl ar gyfer cyflwyno'r cynllun EPR. Cafodd yr ymgynghoriad hwn hefyd ei gynnal ar y cyd gan Lywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU, Llywodraeth yr Alban a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon.

15. Derbyniodd yr ymgynghoriad 1,241 o ymatebion gan amrywiaeth eang o randdeiliaid. Cyhoeddwyd crynodeb o'r ymatebion ac ymateb cyfunol y Llywodraethau i ymgynghoriad 2021 ym mis Mawrth 2022. Amlinellodd yr ymateb hwn y cynigion i'w gwneud yn ofynnol i gynhyrchwyr adrodd am eu data pecynwaith ddwywaith y flwyddyn, ym mis Hydref ac ym mis Ebrill, gyda phob adroddiad yn cwmpasu cyfnod o chwe mis.

16. Oherwydd natur dechnegol yr elfen hon o'r diwygiadau i'r EPR ar gyfer pecynwaith, roedd yr ymgynghoriadau hyn yn canolbwyntio ar ymgysylltu â rhanddeiliaid yn y gadwyn gwerth pecynnu, gydag ymgysylltu a chyd-

ddylunio helaeth yn parhau i ddigwydd gyda rhanddeiliaid ar draws y gadwyn gwerth pecynnu yn dilyn yr ymgynghoriad. Bu gwaith ymgysylltu wedi'i dargedu gyda rhanddeiliaid allweddol ar ôl i'r Prif Reoliadau gael eu cyflwyno, sydd wedi helpu i nodi'r diwygiadau i'r Rheoliadau hyn.

## RHAN 2 – ASESIAD EFFAITH RHEOLEIDDIOL

### Pennod 6 - Asesiad Effaith Rheoleiddiol

### Effaith

17. Cafodd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol ei ystyried mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. Nid ystyrid bod angen cynnal Asesiad Effaith Rheoleiddiol o'r costau a'r manteision tebygol a fyddai'n deillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn, oherwydd bod yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer y cynllun EPR yn cynnwys dadansoddiad llawn o'r diwygiadau i EPR, a bod y diwygiadau'n fach iawn. Cyhoeddwyd Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer cyflwyno'r cynllun EPR ochr yn ochr ag ymateb y Llywodraeth ar y cyd i ymgynghoriad 2021. Mae crynodeb o'r costau sy'n deillio o'r Prif Reoliadau yn y Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd â'r Rheoliadau hynny. Maent wedi cael eu crynhoi isod o dan Fanteision y Cynllun EPR a Chostau yng Nghymru.  .

18. Y bwriad yw i'r cynllun EPR fod yn gynllun ar gyfer y DU gyfan. Bydd y rhan fwyaf o fusnesau sy'n gorfod ymrwymo yn gwmnïau sydd â'u pencadlys yn Lloegr ac sy'n gweithredu ledled y DU. Cafodd yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer y cynllun EPR ei gynnal ar sail y DU gyfan. Mae'r Asesiad yn nodi'r costau i fusnes o gydymffurfio â'u rhwymedigaethau o dan y cynllun.

19. Effaith y Prif Reoliadau hyn ar fusnesau yw'r gofynion ychwanegol o ran casglu data ac adrodd am ddata. Amcangyfrifir y bydd cyflwyno trothwy de minimis newydd yn dod â 1,823 o fusnesau ychwanegol ledled y DU o dan gwmpas y rhwymedigaethau casglu data. Mae hyn yn cyfateb i tua 62 o fusnesau ychwanegol yng Nghymru, yn ychwanegol at y 250 o fusnesau yng Nghymru yr amcangyfrifir sy'n gorfod cydymffurfio â'r rhwymedigaethau eisoes. Nid oes effaith, neu effaith sylweddol, ar elusennau neu gyrff gwirfoddol.

### Manteision y cynllun EPR

20. Mae casglu ac adrodd am ddata ar becynwaith cynhyrchwyr o fis Gorffennaf i fis Rhagfyr 2023 yn hanfodol fel y gellir gweithredu'r cynllun EPR wedyn a buddion cysylltiedig yr economi gylchol. Bydd yn sicrhau hefyd bod ffioedd cynhyrchwyr o dan y cynllun EPR yn cael eu gosod yn briodol ac yn unol â'r bwriadau polisi gwreiddiol. Bydd y cynllun EPR yn arwain at fudd i'r sector cyhoeddus, gan y bydd cynhyrchwyr yn gwneud taliadau sy'n adlewyrchu gwir gostau rheoli gwastraff pecynwaith.

## Cost yng Nghymru

21. Nodwyd bod gan 62 o gynhyrchwyr yng Nghymru sydd â throsiant o fwy na £1 filiwn a hyd at £2 filiwn ac sy'n cynhyrchu mwy na 25 tunnell a hyd at 50 tunnell o becynwaith. Bydd gofyn i'r cynhyrchwyr hyn adrodd ar lefel deunydd sylfaenol, gyda chost (a amcangyfrifwyd yn Asesiad Effaith y DU) o £1,000. Felly amcangyfrifir mai £62,000 yw cyfanswm y gost i'r holl fusnesau sydd â rhwymedigaeth am y tro cyntaf yn 2023.

22. Yn ogystal, amcangyfrifir bod 250 o fusnesau yng Nghymru sydd eisoes â rhwymedigaeth, ond a fydd bellach angen casglu ac adrodd am ddata ar lefel fanylach. Yn seiliedig ar y costau y Asesiad Effaith y DU, mae'r busnesau hyn yn wynebu cost ychwanegol o rhwng £1,500 a £2,500 (cost o £3,000 - £4,000 ar gyfer y gofynion newydd llai'r £1,500 y maent yn ei dalu eisoes). Mae hyn yn rhoi cyfanswm cost ychwanegol o £375,000 i £625,000 i'r busnesau hyn yn 2023.

23. Amcangyfrifir bod cyfanswm y gost ychwanegol i fusnesau yng Nghymru yn 2023 rhwng £437,000 a £687,000.

## Asesiad o'r Effaith ar Gyfiawnder

24. Cafodd Asesiad Nodi'r Effaith ar y System Gyfiawnder (JSII) ei gwblhau ar gyfer y Prif Reoliadau, ac nid oes disgwyl iddynt gael bron unrhyw effaith ar y system gyfiawnder yng Nghymru. Yn seiliedig ar hyn, nid yw'r JSII wedi cael ei anfon at y Weinyddiaeth Gyfiawnder am sylw.

25. Mae Asesiad o'r Effaith ar Gyfiawnder (JIA) yn cael ei baratoi hefyd ar gyfer y cynllun EPR yn ei gyfanrwydd ar sail y DU gyfan, a bydd yn cael ei gwblhau cyn i'r Rheoliadau EPR gael eu gwneud.

## Asesiad Effaith Integredig

26. Mae crynodeb o'r Asesiad Effaith Integredig ar gyfer y cynllun EPR ar gael yn Atodiad 3.

## Y Fframwaith Cyffredin ar gyfer Adnoddau a Gwastraff

27. Mae'r ddeddfwriaeth hon o fewn cwmpas y Fframwaith Cyffredin ar gyfer Adnoddau a Gwastraff.